# Cenn@d

17 Mehefin 2026

**Rhifyn 277**

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW


## Cyfarfod lansio cyfrol newydd

### *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg* gan John Tudno Williams



*Geraint Evans, Maredudd ap Huw, John Tudno Williams ac Aled Davies*

Pnawn Llun, 1 Mehefin, roedd Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, yn llawn aelodau o deulu a chyfeillion y Parch. Athro John Tudno Williams ar achlysur lansio'i gyfrol ddiweddaraf, *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*. Mae'n gyfrol arloesol sy'n cynnig cipolwg newydd ar hanes ac egwyddorion cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg. Yn wir, hon yw'r astudiaeth gyntaf yn Gymraeg i gymharu'r testunau Groeg a'u dylanwad ar gyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl dros gyfnod o bedair canrif. Mae'n adnodd unigryw i ysgolheigion, diwinyddion ac unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes yr iaith Gymraeg a'r ysgrythurau.

Croesawyd pawb i'r digwyddiad gan Dr Maredudd ap Huw o'r Llyfrgell Genedlaethol, a nododd ein bod yn lansio cyfrol oedd yn coroni gyrfa o ysgolheictod diwinyddol eithriadol. Yn dilyn hynny, cafwyd gair gan Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, cyhoeddwyr y gyfrol. Mynegodd yntau ei ddiolch i'r awdur, gan gydnabod ei lafur diflino yn llunio'r *Cydymaith* gwerthfawr hwn. Cyfeiriodd at y cydweithio hwylus â'r Llyfrgell Genedlaethol a gwaith cysodi gofalus Dr Rhys Llwyd ar ran y wasg, cyn cyflwyno copi o'r gyfrol i'r awdur.

Yn ei ymateb, diolchodd yr Athro John Tudno am nawdd Cymrodoriaeth Ann Eilian Owen a Margaret Eilian Owen, drwy law'r Llyfrgell Genedlaethol, i'w alluogi i ymgymryd â'r gwaith.



*Geraint Evans yn holi John Tudno Williams*

Eglurodd ei fod wedi mynd ati i gymharu cyfieithiad Cymraeg Beibl 1620 â'r Beibl Cymraeg Newydd (1988, wedi'i ddiwygio yn 2004) gan nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddau gyfieithiad ar sail y testun Groeg.

Yna, cafwyd cyfle i ddysgu mwy am y gwaith wrth i'r awdur ymateb i ambell gwestiwn gan ei frawd yng nghyfraith, Geraint Evans, a chafwyd sgwrs hwyliog rhwng y ddau.

Mae'r englyn a gyfansoddwyd gan ei fab, Tomos Gwyn, ar gyfer yr achlysur yn crynhoi camp yr Athro John Tudno i'r dim, ac estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog iddo:

Gwirio bôn y gair byw – ysgoloriaeth
Hir genhadaeth ydyw;
Ymchwil hynod a chlodwiw,
Gorau dysg ar eiriau Duw.

*Marian B. Hughes*


Gwersyll Pêl-fasged yng Ngholeg y Bala
Tudalen 3

Taith Heddwch o Langeitho i Dregaron
Tudalen 5

O'r Byd a'r Betws: Cloncan am Grist
Tudalen 7

## *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*

### gan John Tudno Williams (Cyhoeddiadau'r Gair)

Mae'r *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg* gan John Tudno Williams yn gyfrol bwysig i unrhyw un sydd â diddordeb yn hanes y Beibl Cymraeg, cyfieithu'r Ysgrythurau, a datblygiad ysgolheictod Beiblaidd yng Nghymru. Nid sylwebaeth ar gynnwys diwinyddol y Testament Newydd mo'r gyfrol yn bennaf, ond cydymaith manwl i'r testunau Groeg sy'n sail i wahanol gyfieithiadau Cymraeg o'r Testament Newydd, yn enwedig Beibl 1620 a'r Beibl Cymraeg Newydd.

Drwy gymharu'r testunau Groeg a ddefnyddiwyd gan y cyfieithwyr, mae'r awdur yn taflu goleuni newydd ar nifer o wahaniaethau testunol sydd wedi siapio'r darlleniad Cymraeg o'r Testament Newydd dros y canrifoedd. I Gristnogion, ac yn wir i weinidogion fel fi, nad yw ein hyfforddiant wedi ei wreiddio yn y Roeg fel yr oedd yn achos cenedlaethau blaenorol, mae'r gyfrol hon yn bont werthfawr rhwng byd yr ysgolhaig a byd y Cristion cyffredin.

Yn gyntaf oll, mae'n briodol llongyfarch yr awdur am gyflawni camp ysgolheigaidd ryfeddol. Mae maint y gwaith, ei fanwl gywirdeb, a'i afael ar fyd cymhleth beirniadaeth destunol y Testament Newydd yn drawiadol. Mae'r gyfrol yn dyst i ddegawdau o ddarllen, ymchwilio a myfyrio, ac yn enghraifft ragorol o ysgolheictod Cristnogol Cymraeg ar ei orau. Y mae'n amlwg fod yr awdur wedi ymroi'n llwyr i'r dasg o olrhain tarddiad a datblygiad testun y Testament Newydd yn Gymraeg, ac mae'r canlyniad yn adnodd amhrisiadwy i genedlaethau'r dyfodol.

Yr un pryd, mae'r gyfrol yn peri rhywfaint o dristwch. Mae'n ein hatgoffa o gyfnod pan oedd ysgolheictod Beiblaidd o'r safon uchaf yn rhan naturiol o fywyd deallusol Cymru. Heddiw, mae gwaith o'r fath yn llawer prinnach. Mae'r dirywiad mewn adnoddau, sefydliadau, a chyfleoedd i feithrin ysgolheigion sy'n gweithio'n ddwys gydag ieithoedd y Beibl yn golled sylweddol i'r eglwys ac i ddiwylliant Cymru fel ei gilydd. Yn hynny o beth, mae'r gyfrol hon nid yn unig yn gyfraniad academaidd ond hefyd yn atgof o draddodiad gwerthfawr sydd i'w weld ar hyn o bryd yn hwylio tuag at ei fachlud.

Yn olaf, mae'r llyfr yn ein hatgoffa fod cyfieithu'r Beibl yn llawer mwy na throsi geiriau o un iaith i'r llall. Mae pob penderfyniad yn cynnwys elfen o ddehongli. Mae'r cwestiynau ynghylch pa destun i'w ddilyn, sut i gyfleu ystyr, a pha eiriau i'w defnyddio yn gwestiynau diwinyddol yn ogystal ag ieithyddol. Dyna pam mae'r broses o gyfieithu'r Beibl mor bwysig. Nid gwaith technegol yn unig mohono, ond rhan o'r ffordd y mae'r Eglwys yn gwrando ar lais Duw ym mhob oes. Trwy waith ysgolheigion fel John Tudno Williams – a chyfraniadau mwy poblogaidd ac ymarferol pobl fel Arfon Jones – gwelwn sut y mae'r Ysgrythur yn parhau'n air byw, yn cael ei ailddarganfod a'i ailgyfleu i bob cenhedlaeth.

*Rhys Llwyd, Caernarfon*

## Mis Mai prysur – Gair o Gadair y Llywydd



Roedd mis Mai yn un prysur. Dechreuodd gyda chyfnod cynhyrfus a stormus yn y maes gwleidyddol gydag etholiadau yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â bod yn stormus ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r cyfan yn gwneud i'r broses o ailstrwythuro EBC ymddangos fel chwarae plant o'i gymharu!

Yn yr Eglwys daethom at ein gilydd am lawer o resymau gwahanol. Parhaodd y Dathliadau Cenhadol yn Gymraeg a Saesneg â'r traddodiad hir o ddathlu cenhadaeth a'n tynnu ynghyd mewn cymdeithas. Daeth yr Wythnos Weddi Genedlaethol â ni ynghyd mewn ugain canolfan ledled Cymru ar y nos Lun ac yna'n dilyn ar Zoom drwy'r wythnos. Roedd Encil y Weinidogaeth Iachâu yn Cefn Lea, y Drenewydd, unwaith eto'n fendith i bawb a ddaeth at ei gilydd. A threuliodd Ymddiriedolwyr y Cyfundeb dridiau yn Nhrefeca i dderbyn yr ymatebion ar ailstrwythuro, eu cyfuno a llunio'r cynigion i'w cyflwyno yn y Gymanfa Gyffredinol.

Os cânt eu cadarnhau, bydd y flwyddyn nesaf yn fwy prysur na'r flwyddyn hon! Bydd angen inni ganolbwyntio ar y cyfleoedd ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth, gyda'r eglwys leol ynghanol ein hymdrechion. Eleni hefyd rydym wedi bod yn gweithio ar lawer o elfennau sy'n cyfrannu at fod yn Eglwys effeithiol yn ein cenhadaeth: bwriadau o ran hyfforddi, defnyddio ein hadeiladau, defnyddio ein canolfannau yn Nhrefeca ac yn y Bala, a'n systemau cyfathrebu. Bydd y rhain hefyd yn cyfrannu at ein cynlluniau yn ogystal â'r cynigion am wneud ein strwythurau a'n prosesau yn fwy syml. Ond bydd angen i bob un ohonom ofyn beth allwn ni ei gyfrannu i addoliad a gwaith Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2026 ac i'r dyfodol.

Edrychaf ymlaen at weld llawer ohonoch yn y Gymanfa Gyffredinol, yn bresennol yno neu ar Zoom. Anfonwn ein dymuniadau da i Gapel y Porth, Porthmadog, sy'n paratoi i'n croesawu, a diolchwn iddynt am bopeth maen nhw'n ei wneud ar ein rhan. Mae'n dda cael cwrdd yn un o'n heglwysi. Byddwn yn croesawu Ny Ako, y grŵp dawns a chân Cristnogol o Fadagascar ar y nos Lun; cawsom wledd o'u gweld a'u clywed nhw ddwy flynedd yn ôl, ac edrychaf ymlaen at noson wefreiddiol arall. Ac edrychaf ymlaen at fod gyda'n gilydd mewn addoliad a chymdeithas, ac yn y dasg bwysig o wneud penderfyniadau am ddyfodol ein henwad. Taith ddiogel i chi os byddwch yn teithio i Borthmadog.

*Glynis Owen*
*Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC 2025–27*

## Gwersyll Pêl-fasged Camp Admirals yng Ngholeg y Bala gan Angharad Clwyd

Yn ystod hanner tymor mis Mai, mewn partneriaeth â Christians in Sports, cynhaliwyd Gwersyll Pêl-fasged yng Ngholeg y Bala. Darparwyd wyth awr o hyfforddiant pêl-fasged i’r chwaraewyr dros bedwar sesiwn mewn dau ddiwrnod – ac roedd y gwersyll yn llwyddiant ysgubol.



Dywedodd Cameron Jones, arweinydd y gwersyll:

‘Cawsom y fraint o groesawu hyfforddwyr o Academi Pêl-fasged Admirals, a ddaeth atom o Wcráin a Moldofa. Fe wnaethon nhw ddarparu hyfforddiant o safon uchel a heriodd ac a ddatblygodd y chwaraewyr drwy gydol y gwersyll. Roedd eu gwybodaeth, eu profiad a’u hangerdd dros y gêm yn amlwg ym mhob sesiwn, ac roedd yn fendith wirioneddol cael





elwa ar y doniau a’r arbenigedd a rannwyd ganddynt â’n hathletwyr ifanc.

‘Roedd effaith y gwersyll yn glir o’r adborth cadarnhaol a gafwyd gan rieni wedi hynny. Cysylltodd teuluoedd â ni i fynegi gymaint yr oedd eu plant wedi mwynhau’r profiad a pha mor awyddus oedden nhw i ddangos y sgiliau newydd roedden nhw wedi’u dysgu yn ystod y gwersyll, a’u bod yn gobeithio y byddai'r gwersyll yn dychwelyd y flwyddyn nesaf.

‘Yn ogystal â’r hyfforddiant pêl-fasged, cynhaliwyd sesiwn Her Tîm dan arweiniad Christians in Sport. Drwy amrywiol heriau corfforol a meddyliol hwyliog, mwynhaodd y criw y cyfle i gydweithio a meithrin perthynas, gan fod llawer ohonynt yn dod o wahanol dimau ledled gogledd Cymru. Cyflwynodd Lloyd Thomas neges ddifyr hefyd ar y ddau ddiwrnod, gan archwilio’r cysylltiad rhwng ffydd a chwaraeon, a phwysleisio pwysigrwydd cymeriad, gwerthoedd, a rhoi ein gorau mewn cystadleuaeth.

‘Ynghanol yr holl brysurdeb, fe wnes innau hefyd gynnal cwis pêl-fasged. Gyda gwobrau hwyliog ar gael, roedd y cwis yn llawn egni, yn gystadleuol, ac ar adegau’n hyfryd o wallgof, a chafwyd llawer o hwyl ynddo ar ddiwedd y diwrnod cyntaf.

‘Roedd Camp Admirals yn llwyddiant mawr, ac rydym yn ddiolchgar i Dduw am bawb a gyfrannodd eu hamser, eu doniau a’u hegni.’

## Coffâd a chydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth **y Parch. Euros Miles** ar 30 Mai. Bu Euros yn weinidog yr Efengyl gydag Undeb Bedyddwyr Cymru, ac yn gyn-Arolygwr Cymanfa Gorllewin Morgannwg. Mynegwn ein diolch yn fawr iddo am ei arweiniad hael, ei gyngor doeth, ei ras a’i gariad. Mae ein meddyliau a’n cydymdeimlad dwysaf gyda’r teulu.

Hefyd, derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth **y Parch. John Owen, Rhuthun**, ar 11 Mehefin. Yn wreiddiol o Ynys Môn, bu’n weinidog yn Llanberis a Nant Peris, cyn symud i Ruthun, lle roedd yn gofalu am eglwysi’r Tabernacl, Llwynedd, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Clawddnewydd a Derwen cyn ei ymddeoliad, 27 mlynedd yn ddiweddarach yn 2004. Bu’n llywydd Cymdeithasfa’r Gogledd a Chymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a chyflwynodd Ddarlith Davies 2004 ar y testun *Gweld Llais a Chlywed Llun*. Bu’n weithgar yn ei gymuned yn lleol, gan sefydlu Cymdeithas Ddrama Rhuthun a’r Cylch ac yr oedd yn un o olygyddion papur bro’r *Bedol*. Roedd hefyd yn englynwr toreithiog. Bu’n briod â’r diweddar Ann a Gwenda. Cydymdeimlwn â’i deulu oll – ei blant, Dafydd a Huw; ei chwaer, Eilir; a Dyfan, Trystan ac Ifor y bu’n llystad iddynt, a’u teuluoedd hwythau.

Estynnwn ein cydymdeimlad â’r **Parch. Carwyn a Mrs Alicia Arthur, Tregaron**, ar farwolaeth Mrs Nel Arthur, mam Carwyn, yn Llanymddyfri. Meddyliwn hefyd am Myfanwy, Huw a Vivian, a’u teuluoedd.

Hefyd, estynnwn ein cydymdeimlad â **Sian ac Owain Edwards, y Bala**, a’r teulu i gyd ar farwolaeth Gwyneth, mam Sian, yn ddiweddar. Cofiwn hefyd am ei brawd, Richard, a’i deulu yntau.

Ein gweddi yw ar i’r Arglwydd gofleidio’r teuluoedd hyn yn agos ato’i hun yn eu colledion a’u cynnal yn eu galar a’u hiraeth.

# Dod i nabod ... Dot Tyler o Gaerdydd,
## sy'n arwain gwaith 24/7 Prayer yng Nghymru

Eleni, bu Dot Tyler yn siarad yng Nghynhadledd Flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru: Momentum. Yma, clywn ychydig o'i hanes, gan gynnwys ei thaith ffydd, a'r gwersi y mae hi wedi'u dysgu am weddi

### Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi eich hun!

Fy enw i yw Dot! Ces i fy magu ym Manceinion, ond rydw i'n byw yng Nghaerdydd gyda fy ngŵr a'm teulu ers 13 mlynedd bellach. Dwi'n teimlo brwydr fewnol ar ddiwrnodau rygbi, ond dwi'n angerddol iawn dros Gymru! Dwi'n teimlo i mi gael fy 'mabwysiadu' fel Cymraes mewn sawl ffordd (dwi wrthi'n dysgu Cymraeg!). Mae gen i'r fraint fawr o arwain tîm 24/7 Prayer yma ym Mhrydain. Ein gweledigaeth yw gweld yr eglwys yn cael ei hadfywio: cynnydd mewn gweddi, cenhadaeth a chyfiawnder yn ein plith, a bod ein diwylliant yn cael ei drawsnewid i fod yn debycach i Deyrnas Dduw!

### Dywedwch ychydig wrthym am y daith sydd wedi dod â chi i'r lle rydych chi heddiw

Mae'n fraint fawr eistedd yma a gallu gweld llaw Duw ym mhob cam o'm bywyd hyd yma. Ces i fy magu mewn teulu nad oeddent yn Gristnogion, ond roedden nhw'n credu, er mwyn dysgu plentyn i fod yn dda, bod yn rhaid eu hanfon i'r ysgol Sul gan mai 'dyna'r peth iawn i'w wneud'! Dwi'n credu nad fi yw'r unig un sydd wedi cael y profiad hwnnw! Cyrhaeddais oedran mawr 10 neu 11 oed a phenderfynu nad oeddwn i'n hoff iawn o'r drefn mwyach. Felly, dysgu dweud celwydd wrth fy rhieni am yr hyn roeddwn i'n ei wneud ar y Sul oedd y drefn wedi hynny!

Fodd bynnag, dwi'n cofio bod yn 16 oed a chyrraedd pwynt yn fy mywyd lle nad oeddwn i'n hapus iawn gyda'r person oeddwn i. Fe wnaeth ffrind hyfryd y gwnes i gwrdd â hi yn yr ysgol Sul fy ngwahodd i'n ôl. Mae arna i ddyled iddi hi am gymaint o'm taith ffydd – rhywun na roddodd y gorau i weddïo, na rhoi'r gorau i wahodd.

Mae'r Beibl yn llawn enghreifftiau o ddyfalbarhau, dyfalbarhau, dyfalbarhau ... ac wedyn troeon sydyn! Ces i 'dro sydyn'! Gwahoddodd y ffrind hwn fi'n ôl i rywbeth yn yr eglwys. Oherwydd nad oedd dim byd arall gen i i'w wneud ar y pryd, fe es i! Fe glywais i neges Iesu, a'r gwahoddiad mai ym mherson Iesu y byddwn i'n darganfod yn iawn pwy ydw i! Ac yn y lle hwnnw, rhoddais fy 'ie' llawn i'r Arglwydd! Es i i'r brifysgol, a darganfod fod gweddi yn gallu bod yn fwy na litwrgi neu rywbeth ar y Sul. Es i i Ystafell Weddi 24–7 ar fy nghampws ym Mhrifysgol Leeds. A des i ar draws y syniad bod Duw eisiau cwrdd â fi, yn bersonol – Dot! Yn fy ngeiriau fy hun, yn f'amser fy hun ... a dw i erioed wedi edrych yn ôl ers hynny!

### Sut fyddech chi'n annog y rhai sydd am ddyfnhau eu bywyd gweddi?

Y peth cyntaf y mae'n rhaid i mi fy atgoffa fy hun o hyd yw nad oes unrhyw weddïwyr proffesiynol! Yr hyn glywn i'n aml wrth dyfu i fyny oedd fod gweddi'n 'ddyletswydd'.



Mae'n ddyletswydd y dylwn ei chyflawni am i Iesu farw ar y groes er mwyn i mi allu cael perthynas â Duw. Ac mae harddwch yn hynny ... Mae gen i gadair benodol y byddaf yn mynd ati yn y bore, a dyna fy nghadair 'lonydd'!

Ond, rhywbeth dwi hefyd yn ei ddysgu yw fod gwahoddiad i ni fod yn fwriadol hamddenol a gorffwyso yn Ei bresenoldeb. Rhywbeth dwi'n ceisio'i wneud yn y munudau hynny ar ddechrau'r dydd yw ceisio cofio mai tuag at wyneb Iesu y dylai fy osgo fod mewn gweddi. Rhywbeth arall rydw i hefyd yn ei ddysgu yw fod yna bobl sydd wedi arfer â phresenoldeb Duw, ac rydych chi'n gweld hynny arnyn nhw! Dyna ddymuniad fy nghalon wrth i mi dreulio mwy o amser mewn gweddi – yn fy mywyd bob dydd ac yn fy amseroedd tawel – y byddai pobl yn synhwyro presenoldeb Duw yn fy mywyd.

### Sut hoffech chi herio neu annog eglwysi ledled Cymru yn ein dyddiau ni?

Rwy'n credu mai fy anogaeth fyddai fy mod i'n gweld Duw yn symud mewn ffyrdd nad ydw i wedi ei weld yn symud o'r blaen! Rwy'n bersonol yn credu bod ton yn dod yn ein cenedl – ton o Dduw ar waith. Ond, dydw i ddim eisiau edrych yn ôl ar fy mywyd mewn blynyddoedd i ddod a dweud, 'Fe wnes i ei golli e!' Dydw i ddim eisiau hynny ar eich cyfer chi, a dydw i ddim eisiau hynny ar gyfer priodferch Crist – yr Eglwys – chwaith.

Mae 'na hen ddywediad: ein bod ni'n dod at Iesu gyda phengliniau budr a bochau gwlyb. Mae gennym fochau gwlyb oherwydd ein bod wedi gweld beth sy'n digwydd yn ein byd ac mae wedi ein hala ni at ddagrau. Ac mae gennym bengliniau budr oherwydd ein bod wedi syrthio wrth draed Iesu a gofyn: beth alla i ei wneud? Rwy'n credu, pan fyddwn ni'n dod ac yn penlinio ac wylo mewn gweddi ... y bydd yr Arglwydd hefyd yn rhoi rhywbeth i ni ei wneud, i chwarae ein rhan yn y Deyrnas. Ac felly, fy her fyddai: O, Briodferch Crist, gadewch i ni gael pengliniau budr a bochau gwlyb!

# Taith heddwch Merched y Wawr Ceredigion – o Langeitho i Dregaron

Profiad arbennig iawn oedd ymuno â thaith heddwch a drefnwyd gan Ranbarth Ceredigion o Ferched y Wawr ddydd Sadwrn, 30 Mai. Er mai yng nghysgod y cerflun nodedig o Daniel Rowland yng Nghapel Gwynfil, Llangeitho, yr oedd dechrau'r daith, roeddem yno oherwydd mai yn y fynwent gerllaw y mae bedd Annie Hughes Griffiths. Yn ddiweddar, gosodwyd hysbysfwrdd yno i nodi hynny, gan ei disgrifio fel 'Cennad Heddwch', a hynny ar sail ei gwaith arwrol gydag ymgyrch Deiseb Heddwch Menywod Cymru, a lofnodwyd gan bron i 400,000 o ferched Cymru ychydig dros ganrif yn ôl.

Yn dilyn gair o groeso ac anogaeth gan Catherine Hughes, Llywydd Pwyllgor Rhanbarth Ceredigion, cychwynnodd tua 70 ohonom, yn aelodau a chyfeillion Merched y Wawr o ganghennau ledled y sir, ar y daith bum milltir i Dregaron. Roedd dringfa eithaf serch o'n blaenau ar ddechrau'r siwrnai ac roedd yn dda cael cysgod y coed rhag haul canol dydd. Ond yn fuan cyrhaeddwyd lloches eglwys Llanbadarn Odwyn, lle cafwyd seibiant derbyniol i fwynhau sgwrs a chinio. Yn gwbl addas, unwyd i ganu geiriau'r emyn 'Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd' cyn gadael yr eglwys, a mwynhau'r olygfa drawiadol o ddyffryn Aeron, a'r Cwrt Mawr, cartref plentyndod Annie Hughes Griffiths, i'w weld yn swatio ymysg clwstwr o goed yn y pellter.

Ymlaen â ni yn fintai liwgar – llawer yn gwisgo crysau-T pinc i nodi'r ffaith mai un o amcanion y daith oedd codi arian tuag at Ymchwil Canser Cymru, dewis Bethan Picton-Davies, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, fel yr elusen i'w chefnogi yn ystod ei llywyddiaeth.

Roedd cefn gwlad Ceredigion ar ei orau wrth inni gerdded drwy ddolydd llawn blodau amryliw ar hyd y llwybrau tuag at Dregaron. Ac roedd pwysigrwydd diwydiant amaethyddol y sir yn amlwg wrth inni fynd heibio amryw o ffermydd, a chael cwmni rhai anifeiliaid busneslyd ar y ffordd. Cyn hir, roedden ni'n croesi afon Teifi ac yn cyrraedd cyrion y dref. Yna, ymlaen heibio Capel Bwlch-gwynt tuag at y sgwâr, lleoliad cerflun nodedig arall – un Henry Richard, yr Apostol Heddwch.

Ar ôl inni ymgynnull ar y sgwâr, cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr i hanes Annie Hughes Griffiths gan Catrin Stevens. Soniodd am ei magwraeth yn ardal Llangeitho, ei haddysg a'i bywyd personol, a'i gyrfa fel gwraig gyhoeddus ac arweinydd naturiol. Cyfeiriodd yn arbennig at ei rhan yn yr ymgyrch anhygoel i gasglu llofnodion menywod ledled Cymru yn ystod gaeaf 1923–4 a'i hymweliad ag America yn aelod o'r ddirprwyaeth a gyflwynodd y ddeiseb heddwch i ferched y wlad honno. Cyfarfu Annie hefyd â'r Arlywydd Calvin Coolidge yn y Tŷ Gwyn, mewn ymgais i geisio perswadio'r Unol Daleithiau i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd a gweithio er budd heddwch byd-eang, yn dilyn erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf.





Wrth gloi ei chyflwyniad, dyfynnodd Catrin eiriau o'r memorandwm y byddai Annie yn ei ddarllen wrth iddi gyfarfod ag arweinwyr amrywiol yn ystod ei thaith yn America: 'Mae'r dyfodol yn llawn gobaith, os gwnawn ni, ferched y genhedlaeth hon, ein rhan. I ni rhoddwyd cyfle ac mae cyfle yn gyfrifoldeb. Felly, apeliwn arnoch i drosglwyddo i'r oesoedd a ddêl fyd di-ryfel yn dreftadaeth dragwyddol.'


Does dim ond angen crybwyll enwau fel Rwsia, Wcráin, Israel, Libanus ac Iran i'n hatgoffa mai'r un yw'r her i ninnau heddiw. A'r un yw'r cyfrifoldeb arnom ninnau i weithredu i hyrwyddo heddwch er budd ein cenhedlaeth nesaf ninnau, gan ddefnyddio geiriau Annie Hughes Griffiths yn ysbrydoliaeth ac yn anogaeth. Pa waddol gwell sydd yna na gallu dweud ein bod wedi trosglwyddo 'i'r oesoedd a ddêl fyd di-ryfel yn dreftadaeth dragwyddol'?

Diolch i Swyddogion Merched y Wawr Ceredigion am y trefniadau trylwyr, i Averinah Davies a Gwyneth Davies am lunio ac arwain y daith mor hwylus, ac i bawb a fu'n cydweithio i sicrhau digwyddiad llwyddiannus iawn. I gloi'r diwrnod, roedd lluniaeth wedi'i ddarparu ar ein cyfer yn Neuadd Tregaron, a diolch i'r rhai fu wrthi'n paratoi yno hefyd. Diwrnod i'w gofio yn wir – a her i ni i gyd i weithio dros heddwch yn ein dyddiau ni ac i'r dyfodol.

*Marian B. Hughes*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 27

## Ymson Jesebel

Dros y cenedlaethau llefarwyd fy enw'n watwarus a'i ddefnyddio i dynnu pobl i lawr. Cefais fy nisgrifio fel y frenhines wenwynig, y gnawes gyfrwys, y ferch ddrwg a syrthiodd i'w marwolaeth yn y diwedd. Gwn am y cyhuddiadau, ond ydyn nhw'n hollol deg? All bywyd person fel fi gael ei gywasgu i gyd, pob mymryn ohono, i un ymadrodd cas?

Ro'n i'n dywysoges o'r funud y ganwyd fi. Merch i frenin, yn cael ei magu yn atseiniau muriau'r deml ac ynghanol pobl oedd yn ddigon hyderus i beidio ymgrymu i Dduw Israel. Wrth ddod i Samaria i fod yn wraig i Ahab, doedd fy llechen ddim yn lân o bell ffordd. Fe ddes i yno gyda stamp fy mhobl arnaf, fy nuwiau a'u traddodiadau. Yn ôl yr hyn a wyddwn i, roedd y pethau hynny'n dda, yn rhan o'm diwylliant; do'n i ddim am droi fy nghefn ar fy magwraeth. Ofynnodd neb imi ystyried y peth.

Wrth gwrs fy mod yn deall yr hyn a gofnodwyd: fy mod wedi cefnogi proffwydi Baal a gwrthwynebu Elias. Adroddodd rhai fy mod wedi ymlwybro ar hyd ffordd greulon. Efallai fod peth gwirionedd yn hynny. Does dim modd i frenhines fyw ei bywyd mewn palas llawn peryglon heb orfod sefyll yn gadarn. Doedd y glustog ar fy ngorsedd ddim yn esmwythau dim ar yr anhawster o orfod ymwneud â phobl. Pan fydd dynion yn mynd i ryfel, bydd pobl yn dweud eu bod yn benderfynol. Pan fydd merch yn dangos awdurdod, dywed pawb ei bod yn beryglus.

Oes, mae cysgodion du yn rhan o'm stori. Fedra i ddim gwaredu'r staen a achoswyd gan yr hyn ddigwyddodd rhwng fy ngŵr, Ahab, a Naboth. Roedd Ahab eisiau prynu tir gwinllan Naboth. Gwrthod gwerthu wnaeth Naboth ac fe bwdodd Ahab, yn ôl ei arfer. Dim ond fi allai symud pethau ymlaen, felly ffugiais lythyrau a fyddai'n cyhuddo Naboth o gablu. Fe'i cafwyd yn euog a'i labyddio i farwolaeth. Ac o'm herwydd i, fe gafodd Ahab ei ffordd. Peth perygl yw grym sy'n dallu pobl rhag gweld y gwir.

Eto, dwi wedi holi fy hun droeon pam y cefais enw drwg, o'i gymharu â dynion a wnaeth bethau llawer iawn gwaeth na mi. Roedd un teyrn yn lladd y llall, a theyrnasoedd yn dymchwel oherwydd creulondeb unigolion. Ond fe lynodd yr hyn a wnes i ym meddyliau pobl. Roedd proffwydoliaeth Elias hefyd yn wybyddus i bawb a'i gred yng nghynlluniau ei Dduw.

Collais fy ngŵr, collais fy nheulu. Clywais fod Jehu ar ei ffordd i'm lladd, a gwyddwn fod yn rhaid imi wynebu fy ffawd. Daeth y bore; penderfynais roi colur ar fy wyneb fel bob bore arall. Rhoddais ddigonedd o hufen hefyd dros fy nghorff hyd nes fy mod yn llyfn a glân. Do'n i ddim am guddio yn y cysgodion. Cerddais yn dalsyth at fy ffenestr a syllu'n syth i gannwyll llygaid Marwolaeth. Os oedd e'n dod i'm nôl, ro'n i'n benderfynol o edrych i fyw ei lygaid. Fe'm taflwyd i lawr a'm bwyta'n fyw.

Nid yw fy stori'n hardd, er fy harddwch. Nid yw'r stori'n llon, er mor llawn fy myw. Alla i ddim derbyn y darlun a beintiwyd ohonof ag un haen yn unig o baent. Roeddwn yn amlhaenog, fel pob meidrolyn byw. Felly, bernwch fi a'm casáu, ond byddwch yn ymwybodol hefyd fod cymhlethdod yn rhan o stori pob un person ar y ddaear, siŵr o fod. Oni chytunwch?

**Holi**

- Pam mae rhai cymeriadau Beiblaidd o bosib yn cael eu cofio am eu camweddau yn fwy na'i gilydd?
- Sut mae Jesebel yn ein herio ni i ystyried barn, etifeddiaeth gelwyddog, gwaddol ein gweithred-iadau, a chymhlethdod cymeriad dynol?
- Beth ddywed stori Naboth wrthym am anghyfiawnder a chamgyhuddo? A welwn ni bethau tebyg yn digwydd yn ein cymdeithas ni heddiw?
- Sut gall ymlyniad Jesebel at ei diwylliant ein dysgu ni am ffyddlondeb i'n cred, a ninnau'n byw mewn byd sy'n llawn safbwyntiau amrywiol a seciwlar?
- Sut gallwn ni, unigolion ac eglwysi, warchod ein hunain rhag y demtasiwn i flaenoriaethu llwyddiant, dylanwad ac elw personol ar draul ffyddlondeb ac ufudd-dod i Dduw?

**Gweddi**

Gwyddom dy fod Ti'n gweld i mewn i ddyfnder ein calonnau.
Wrth inni ystyried, myfyrio a thrafod gyda'n gilydd, rho ddoethineb inni adnabod y peryglon sy'n torri ar lyfnder ein bywyd.
Bydd yn gymorth inni ddal ein gafael ar ein hargyhoeddiadau, a gollwng gafael ar ein rhagfarnau hefyd.
Boed inni fod yn union a hynaws, gan wregysu ein hunain â'r gwirionedd.
Amddiffyn ni rhag hunan-dwyll, a gwna ni'n bobl sy'n camu'n gyfiawn ar hyd llwybr cymod a chariad. Amen.

**Siân Meinir**

**Cyhoeddiadau Radio, 21 Mehefin 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 21 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elwyn Richards

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 21 Mehefin am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Delyth Wyn Davies, Chwilog

Colofn Denzil I John



# Cloncan am Grist

Bydd llawer ohonom yng Nghymru wedi arfer â phrotestio'n gyhoeddus, boed o blaid hawliau dynol neu yn erbyn trais neu ryfel. Gallai ein protest fod yn syml ar fater lleol neu'n ymwneud â mater cenedlaethol neu ryngwladol. Eto, ni welwyd trais ym mhrotestiadau Cymdeithas yr Iaith na Chomin Greenham, diolch byth. Ond, yn rhyfedd iawn, gwelsom enghreifftiau diweddar o brotestiadau treisgar ac anwaraidd. Dros yr wythnosau a aeth heibio, bu'r hyn a welsom yn Southampton, Dulyn, Glasgow a Chaeredin, ac yn arbennig yn Belfast, yn ddychrynllyd a gwaradwyddus.

Bu protestiadau erchyll yn Llundain a mannau eraill yn Lloegr, gyda thrais yn magu trais. Nid nad yw Cymru wedi gweld protestiadau tebyg, a hynny'n gymharol ddiweddar yn Llanelli, Abertawe a Chaerdydd, a nodi dim ond tair enghraifft. Pwy all ddirnad y fath ymddygiad, gyda'r heddlu yn darged ymosodiadau, a cheir a thai yn cael eu llosgi? Bu enghreifftiau o fosgiau'n dargedau hefyd, a phrofodd unigolion o bob hil, lliw croen a chefndir niwed difrifol. Gallwn ailadrodd cwestiwn y gân, sef: 'I ba beth mae'r byd yn dod?'

Mae'n rhy hawdd beio pobl sy'n herio'r drefn ac yn hyrwyddo terfysgwyr llawnamser, neu fod eithafiaeth wleidyddol yn porthi agweddau hiliol, gan annog casineb a thor cyfraith. Cyfeirir at Stephen Christopher Yaxley-Lennon, sy'n fwy adnabyddus fel Tommy Robinson, arweinydd yr EDL (English Defence League), fel un o'r bobl sy'n mwynhau ysgogi'r fath weithgaredd, a bydd eraill yn cynnwys arweinwyr Plaid Reform fel matsys peryglus.

Eto, mae rhywrai mewn llu o wledydd yn gweld trais cymdeithasol fel arf gwleidyddol. Prin fod Robinson a'i debyg yn gyfrifol am yr holl ymosodiadau ym mhob gwlad! Dywedir bod Robinson yn arddel y ffydd Gristnogol; defnyddir y term 'born-again Christian' wrth sôn amdano. Ond prin y gall unrhyw un fod yn derfysgwr mileinig ac arddel Efengyl heddwch a thrugaredd yr un pryd.

Bydd cymdeithasegwyr a seicolegwyr yn siŵr o gynnig dadansoddiadau hir a manwl o'r ffenomenau hyn. Ac ymhen ugain mlynedd bydd haneswyr yn cynnig dadansoddiad gwrthrychol o'r nodweddion a welwn yn tanio o'n cwmpas. Mae'n siŵr y bydd gwleidyddiaeth gyfredol America yn elfen yn y dadansoddiad.

Yn yr un modd, bydd yna bwyntio bys at y cyfryngau digidol sy'n caniatáu rhannu negeseuon torfol i gyfeirio lleoliadau sy'n denu'r 'protestiadau' hyn, ac a all droi'n wenfflam mor syfrdanol o sydyn. Beth yw cyfraniad Elon Musk a J. D. Vance yn hyn oll? Mae'n debyg iawn y bydd ansefydlogrwydd




economaidd a diweithdra yn ffactorau perthnasol, a phrin fod diffyg moesoldeb o du gwleidyddion Ffasgaidd yn Rwsia, Israel ac America yn helpu.

Onid ffenomen ddynol yw ceisio mwy, y barusrwydd hunanol sydd am gasglu cyfoeth cynyddol ar draul y gwan a'r difreintiedig? Bydd eithafiaeth, cyfoeth a thlodi yn sicr o gynnal gwrthryfel. Onid egwyddor dda yw geiriau Iesu, pan gyfarwyddodd y sawl sydd â dwy gôt i estyn un i'r sawl sydd heb gôt, i fwydo'r newynog ac i garu gelynion?

Os yw cynulleidfaoedd ein heglwysi'n derbyn bod gweddïo am heddwch yn bwysig, yna, drwy amsugno graslonrwydd dwyfol i mewn i'n meddylfryd a'n hymarweddiad, mae angen i ni hyrwyddo trafodaeth sy'n rhannu agweddau trugarog yn ein cymunedau.

Onid yw'n bwysig i ni sgwrsio am ddylanwad sancteiddrwydd Duw wrth gyfarfod â phobl yn ein byw bob dydd? Dyw gweddïo ddim yn cadw ffrwd trugaredd oddi mewn i'r gymuned Gristnogol, ond dylem drafod hanfodion y ffydd â'r rhai sy'n byw yn ein hymyl, nad ydynt yn mynychu oedfa nac yn troi at y Beibl fel ffynhonnell ein ffordd ymlaen fel cenedl a dynoliaeth.

Cofiaf anerchiad llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain yn dweud mai dyletswydd pob Cristion yw 'gossip the gospel'. Mynnwn fod Iesu yn ein mân siarad, a dyna un arf y gallwn ei ddefnyddio i herio'r agweddau dinistriol sydd i'w clywed yn ein cyfryngau torfol.

# Gŵyl Genhadol Sasiwn y De

Cynhaliwyd Gŵyl Genhadol y De yng Nghapel Blaenannerch ddydd Iau, 21 Mai am 1.30 o'r gloch. Daeth nifer dda ynghyd o wahanol eglwysi'r De ac roedd cynrychiolaeth o'r tair Henaduriaeth yn arwain y defosiwn ac yn cyflwyno'r emynau. Llywyddwyd y cyfarfod gan Bronwen Morgan, Llywydd Pwyllgor Cenhadol Ceredigion a Gogledd Penfro.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb ar ran Capel Blaenannerch gan Margaret Daniel, oedd yn allweddol yn y trefniadau. Cafwyd ychydig o hanes y capel ganddi a darllenodd gywydd croeso a gyfansoddwyd gan ei brawd, y Prifardd Dic Jones, i groesawu Sasiwn y De i Flaenannerch ym 1983.

Y siaradwr cyntaf oedd Dr Eryn White, a wahoddwyd i roi hanes Evan Roberts a'i gysylltiad â Chapel Blaenannerch. Profodd dröedigaeth ym Mlaenannerch ym 1904 wrth wrando ar Seth Joshua yn pregethu. Roedd y fflam eisoes wedi'i chynnau yng Ngheinewydd dan arweiniad Joseph Jenkins. Wedi derbyn nerth yr Ysbryd Glân, gwaeddodd Evan Roberts, "Arglwydd, plyg fi!", a dyma ddechrau Diwygiad 1904. Mae ei enw ar y sedd lle'r eisteddai ac mae arddangosfa gynhwysfawr yn adrodd yr hanes wedi'i gosod gerllaw gan un o aelodau ifanc y capel. Mae Blaenannerch yn denu nifer o grwpiau o America a De Corea sydd â diddordeb yn hanes Evan Roberts i ymweld â'r capel cyn mynd ymlaen i Geinewydd, oedd yn llecyn allweddol arall yn hanes y Diwygiad.

Yr ail siaradwr oedd y Parch. Geraint Morse, a wahoddwyd i sôn am genhadaeth heddiw a'i her i ni. Wrth gyfeirio at stori Evan Roberts cafwyd enghreifftiau ganddo o eraill a brofodd dröedigaeth syfrdanol – Blaise Pascal a John Wesley, a aeth ymlaen i rannu eu stori. Bu William Holland o Sir Benfro yn fawr ei ddylanwad hefyd ar John Wesley. Gofynnodd Geraint Morse i ni beth oedd ein stori ni – stori, nid i'w chadw i ni ein hunain ond i'w rhannu ag eraill? Roedd yr emyn 'Sicrwydd Bendigaid, dyma fy stori, dyma fy nghân', a ganwyd wedyn, yn crynhoi'r cyfan a glywyd.

Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd siec i Marion Simkin, Llywydd Is-bwyllgor Chwiorydd EBC, ar ran eglwysi'r De. Roedd yn cynnwys yr holl gyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cenhadol yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Diolchodd Marion Simkin i'r eglwysi am eu haelioni a'u hymrwymiad i'r gwaith.

Cyflwynodd Sarah Morris y llyfr thema ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef 'Gras ein Harglwydd' (2 Corinthiaid 13:13). Mae'n thema gyfoethog ac mae'r llyfr yn adnodd ardderchog ar gyfer defosiwn personol, astudiaethau ac addoliad.

Ar ddiwedd y cyfarfod estynnwyd gwahoddiad cynnes i ni i Gapel Newydd, Llanddarog, y flwyddyn nesaf gan Angela Skym. Terfynwyd y cyfarfod drwy ganu'r emyn 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw, / am yr Efengyl sanctaidd. / Haleliwia! Amen'.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Ŵyl Genhadol eleni ac am y trefniadau, y croeso arbennig a'r lluniaeth a dderbyniwyd gan swyddogion ac aelodau Capel Blaenannerch.

*Eleri Davies*
*(Llywydd y Pwyllgor Cenhadol)*




**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.